# Minutes of Meeting of the Finance and Compliance Committee held on 17 November 2025 at 6.30 pm Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present:** Rob Marshall (Chair), Ian Scott, Tim Zhou, and Richard Jarvis.

**Officers Present**: Kerry Grabham – CO and Ian Hughes – CSO

**Public Attendance:** Paul Davies

**FI2511-01** **Apologies:** Cllrs Sara Keeton, Phil Keeton, Martin O'Neill, Pam Erasmus and Carrie Townsend Jones

**FI2511-02** **Declarations of Interest:** None

**FI2511-03** **Minutes of the Previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meeting held on 20th October 2025 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 20th October 2025 as a true record.

**FI2511-04** **Outstanding Actions from Previous Meeting**

Outstanding actions outlined by the CSO.

**RESOLVED** outstanding actions updated, and new actions to be recorded in 'outstanding action' report by CSO.

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2025 am 6.30pm
# Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Rob Marshall (Cadeirydd), Ian Scott, Tim Zhou, a Richard Jarvis.

**Swyddogion yn bresennol**: Kerry Grabham – Prif Swyddog ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**Aelodau o'r cyhoedd yn bresennol:** Paul Davies

**FI2511-01** **Ymddiheuriadau:** Y cynghorwyr Sara Keeton, Phil Keeton, Martin O'Neill, Pam Erasmus, a Carrie Townsend Jones

**FI2511-02** **Datganiadau o fuddiant:** Dim

**FI2511-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2025 fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2025 fel cofnod cywir.

**FI2511-04** **Camau i'w cymryd o'r cyfarfod blaenorol**

Camau gweithredu heb eu cwblhau a amlinellwyd gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau.

Mumbles Community Council

**PENDERFYNWYD** diweddaru camau gweithredu heb eu gweithredu, a chofnodi camau gweithredu newydd yn yr adroddiad 'camau gweithredu heb eu gweithredu' gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau.

**FI2511-05**

**Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 30 Medi 2025 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**
**Adroddiadau wedi'u hatodi.**

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u dosbarthu'n flaenorol i gynghorwyr. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau ynghylch yr adroddiadau hyn cyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiadau uchod

Cynigiodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Marshall, y dylid aildrefnu trefn eitemau'r agenda i ddarparu ar gyfer aelod o'r cyhoedd, Mr Davies, a chwblhau ceisiadau am grantiau cyn trafod y gyllideb ar gyfer 2026/27.

**PENDERFYNWYD** derbyn ail-drefnu eitemau'r agenda.

**FI2511-10**

**Cais Clwb Croquet y Mwmbwls am grant**
Cais am grant o £656.77 i gyfrannu at y gwaith o gynnal a chadw'r cyfleusterau'n rheolaidd.

Gwahoddodd y Cynghorydd Marshall Mr Paul Davies i annerch y pwyllgor mewn perthynas â'r cais hwn am grant. Cyflwynodd Mr Davies ei hun fel ysgrifennydd Clwb Croquet y Mwmbwls a manylodd ar ba mor hanfodol fyddai'r arian grant o ran cynnal a chadw'r lawnt fowlio. Mewn ateb i gwestiynau'r cynghorwyr, cadarnhaodd Mr Davies y byddai'r grant yn cael arian cyfatebol i dalu'r costau'n llawn, a bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn cael ei dalu am wneud y gwaith cynnal a chadw. Gyda llaw, dywedodd Mr Davies ei fod ef a'r Clwb Croquet wrth eu boddau â'r gwelliannau parhaus i'r Pafiliwn sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls.

Roedd y pwyllgor yn gefnogol i'r cais hwn, ac amlygwyd agweddau allweddol ohono gan y cadeirydd, y Cynghorydd Marshall.

**ARGYMHELLWYD** cymeradwyo cais am grant o £656.77 i Glwb Croquet y Mwmbwls i gyfrannu at waith cynnal a chadw rheolaidd y cyfleusterau.

Gadawodd Mr Paul Davies y cyfarfod am 6.41pm

**O gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig.**

**FI2511-08**

**Cais am grant gan Victoria Inn**
Cais am grant o £500 i ddechrau dosbarthiadau Cymraeg sgwrsio mewn amgylchedd cymunedol.

Tynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Marshall, sylw at agweddau allweddol y cais ac roedd holl aelodau'r pwyllgor yn frwd dros ymroddiad y gymuned leol i ddysgu Cymraeg.

**ARGYMHELLWYD** dyfarnu cais am grant o £500 i'r Victoria Inn i gychwyn dosbarthiadau Cymraeg sgyrsiol mewn amgylchedd cymunedol.
**O gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig.**

**FI2511-09**

**Cais am grant gan yr Ysgol Gymraeg**
Cais am grant o £2,000 i gyfrannu at y gwaith o annog pob disgybl yn yr ysgol i gymryd rhan mewn garddio gyda phwrpas.

Er ystyried y cais yn ffafriol, ystyriodd y pwyllgor fod angen gwybodaeth ychwanegol cyn argymell y grant. Rhoddodd y Prif Swyddog wybod i'r pwyllgor y byddai'n cael rhagor o wybodaeth cyn cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr.

**ARGYMHELLWYD**, hyd nes y darperir gwybodaeth ychwanegol i'r Prif Swyddog, na ellid argymell grant o £2,000 i'r ysgol Gymraeg i gyfrannu at y gwaith o annog pob disgybl yn yr ysgol i gymryd rhan mewn garddio pwrpasol.

**FI2511-11**

**Cais am grant gan Re-Engage**
Cais am grant o £500 i gyfrannu at y gwaith o atal pobl hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain yn lleol rhag teimlo'n ynysig.

Mumbles Community Council

Roedd y pwyllgor yn gefnogol i'r cais hwn, ac amlygwyd agweddau allweddol ohono gan y cadeirydd, y Cynghorydd Marshall.

**ARGYMHELLWYD** cymeradwyo cais am grant o £500 ar gyfer 'Re-Engage' i gyfrannu at atal pobl hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain yn lleol yn y gymuned rhag teimlo'n ynysig.

**O Gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig**

**FI2511-06**

**Cyllideb 2026/2027**

Roedd y Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi dosbarthu manylion cynigion drafft ar gyfer 2026/27 cyn y cyfarfod, ac wedi amlinellu ffurflen cynnig cyllideb a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Thomas. Cymerodd y Prif Swyddog gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor mewn perthynas â'r cynigion.

Cytunodd y pwyllgor â mwyafrif y cyllidebau arfaethedig ond ystyriodd y dylid darparu cyllid ychwanegol ar gyfer datblygu Canolfan Ostreme.

CAM GWEITHREDU bod y Prif Swyddog yn diweddaru cynigion y gyllideb ar gyfer 2026/27 i gynnwys £120,000 ar gyfer datblygu Canolfan Ostreme yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** argymell Cyllideb Ddrafft 2026/27 o £167,700 i'r cyngor yn y cyfarfod cyllideb a gynhelir ym mis Ionawr 2026.

**FI2511-07**

**Adolygiad o ffioedd a thaliadau - Canolfan Ostreme a Hyb Underhill**

Roedd y Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi dosbarthu adolygiad manwl o ffioedd a thaliadau mewn perthynas â'r Hyb a Chanolfan Ostreme i gynghorwyr cyn y cyfarfod.

Tynnodd y Prif Swyddog sylw at y gwelliannau canlynol i'r ddogfen uchod:-

- Dylai'r ffi i bobl hŷn sy'n defnyddio'r cae pob tywydd fod yn £150
- Dylai'r ffi i drigolion am ddefnyddio'r cae pob tywydd fod yn £120
- Cost llogi ardal y siop goffi yw £30 yr awr

Roedd y pwyllgor o'r farn bod yr argymhellion yn yr adroddiad, ynghyd â'r gwelliannau uchod a amlinellwyd gan y Prif Swyddog, yn rhesymol ac yn unol â chwyddiant.

Dywedodd y Prif Swyddog y bydd opsiynau o ran gostyngiadau a threfniadau llogi eraill yn cael eu hystyried yn y dyfodol.

Mumbles Community Council

**ARGYMHELLWYD** bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd a thaliadau fel y nodir uchod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.11pm**

**Y cyfarfod nesaf: 19 Ionawr 2026**